Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Trydedd Gynhadledd Coedwigaeth Ryngwladol Robinwood

Lleoliad Llandudno, Cymru

14-16 Chwefror 2007

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Ym mis Chwefror 2007, cyfarfu partneriaid Ewropeaidd Robinwood o Gymru, Yr Eidal, Sbaen, Yr Almaen a'r Weriniaeth Slofacaidd â'i gilydd yn Llandudno i lofnodi cytundeb pwysig.

Mae'r ddogfen hon yn ymrwymo pob un ohonom i gydweithredu wrth arwain y diwydiant, gwleidyddion a'r sawl sy'n ffurfio barn ac i wrando arnynt o ran datblygiad coedwigaeth yn y dyfodol ac i drafod potensial coedwigaeth o ran cychwyn a chynnal datblygu cefn gwlad ar draws y Gymuned Ewropeaidd.

Er mai'r cytundeb oedd prif ganolbwynt y gynhadledd ryngwladol – 'Coedwigaeth – rhoi dyfodol newydd i Ewrop wledig' a lywyddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, bu'r digwyddiad tri diwrnod yn gyfle i bron i 200 o gynadleddwyr o ledled Ewrop rannu profiadau a barn wahanol. Fe'u galluogodd hefyd i nodi rhai o'r materion allweddol sydd wedi codi yn yr amryfal gyd-destunau lleol a chenedlaethol.

Edrychwn yn awr i'r dyfodol ac ar sut y dylem fod yn datblygu coedwigaeth wrth iddo gynyddu yn ei bwysigrwydd a dechrau chwarae rhan fwy hyd yn oed yn agweddau ehangach datblygiad gwledig a chenedlaethol.

Roedd yn bleser o'r mwyaf i mi groesawu cydweithwyr o ledled Ewrop i drafod y materion pwysig hyn a hefyd i ddysgu oddi wrth ein gilydd. Rwyf yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld canlyniadau Prosiect Robinwood yn cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws Ewrop er lles coedwigoedd a phawb sy'n eu defnyddio.

Cyfarwyddwr

Comisiwn Coedwigaeth Cymru (DU)

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Trydedd Gynhadledd Coedwigaeth Ryngwladol Robinwood

Lleoliad Cymru, Llandudno – Cymru 14-16 Chwefror 2007

Mae problem gyffredin yn wynebu rhanbarthau o Ewrop - sut i adfywio ardaloedd gwledig, creu swyddi a chyfoeth newydd a sut i atal llif y bobl ifanc sy'n symud i ardaloedd trefol.

Cred Robinwood fod gan goetiroedd a choedwigaeth ran bwysig i'w chwarae yn y modd y bydd Ewrop wledig yn datblygu yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Trwy gydweithio â rhanbarthau eraill yn Ewrop, ein nod yw nodi ffyrdd newydd o wneud i goedwigoedd dalu ffordd, gan roi bywyd newydd yn ôl mewn ardaloedd gwledig a rhoi hwb i'r economi.

Coedwigaeth - dyfodol newydd i Ewrop wledig yw'r drydedd gynhadledd i'w chynnal gan y prosiect 5 partner hwn. Roedd y digwyddiad tri diwrnod, a lywyddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, nid yn unig yn cynnwys llofnodi cytundeb ar y cyd am gydweithio rhwng y rhanbarthau yn y dyfodol, ond hefyd yn gyfle i'r 200 o gynadleddwyr ddylanwadu ar y ffordd ymlaen trwy lywio gwleidyddion, cynllunwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i wneud dewisiadau deallus ynghylch sut y gall coetiroedd Ewrop gael effaith fawr ar adfywio gwledig.

Beth yw Robinwood?
Gweithrediad Fframwaith Rhanbarthol Interreg IIIc tair-blynedd yw Robinwood sy'n gweithio i nodi sut y gall coetiroedd ddarparu cyfleoedd newydd mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r partneriaid – Yr Almaen, Yr Eidal, Sbaen, Dwyrain Slofacia a Chymru – yn credu y gall coedwigoedd Ewrop chwarae rhan hanfodol i gefnogi a chynnal cymunedau gwledig.

Mae isbrosiectau'r bartneriaeth yn cydweithio ag arbenigwyr ar draws y rhanbarthau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd trwy ddatblygu pren yn adnodd ynni cynaliadwy a thrwy reoli gwell ar goedwigoedd yn ogystal â nodi sut y gall coed a choetiroedd helpu atal llifogydd ac erydiad pridd.

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Mae cytundeb Cymru yn dangos y ffordd i gydweithredu yn fwy agos ar goedwigaeth ar draws Ewrop

Llofnodwyd cytundeb arloesol rhwng pum gwlad yng Nghymru ynglŷn â'r ffordd y gall gwledydd Ewrop gydweithio i ddefnyddio coed a choetiroedd i arwain y ffordd at ddyfodol gwledig mwy disglair.

Roedd yr ymrwymiad i gydweithredu ac i dywys diwydiant, gwleidyddion a llunwyr barn ar ddatblygiad coedwigaeth yn y dyfodol yn allweddol i '*Coedwigaeth - dyfodol newydd i Ewrop wledig'.*

Gwyliwyd y cytundeb yn cael ei lofnodi gan Weinidogion Coedwigaeth y rhanbarthau partner sef Cymru; Brandenburg, Yr Almaen; Ligwria, Yr Eidal; Dwyrain Slofacia a Murcia, Sbaen gan 200 o gynadleddwyr o ledled Ewrop.

Bydd yr ymrwymiad hwnnw, ar lefel llywodraethol, yn golygu y bydd pob gwlad yn hyrwyddo'r Cynllun Gweithredu Coedwigoedd Ewropeaidd y cytunwyd arno yn ddiweddar, yn ystyried effeithiau globaleiddio ar goedwigaeth yn yr UE, yn annog ymchwil i wella cystadleugarwch, yn hyrwyddo bio-más ar gyfer cynhyrchu ynni, yn meithrin cydweithrediad rhwng perchnogion coedwigoedd ac yn gwella addysg a hyfforddiant .

O ran newid yn yr hinsawdd, mae'r cytundeb yn ymrwymo'r rhanbarthau partner i gyfrannu at fodloni amcanion Protocol Kyoto, ac mae'n cynnwys hefyd diogelu coedwigoedd yr UE ar gyfer bioamrywiaeth a datblygu strategaeth i wrthsefyll trychinebau naturiol.

Mae ymrwymiad hefyd i wella ansawdd bywyd pobl ledled Ewrop, trwy addysg a gwybodaeth am yr amgylchedd, archwilio potensial coedwigoedd gwledig a threfol ac annog rheoli coetiroedd bychain preifat.

Ac i gloi, mae'r ddogfen yn nodi'r angen am gydweithrediad a chydlyniad gwirioneddol rhwng y sawl sy'n gyfrifol am bolisïau coedwigaeth yn lleol, gwella rhannu gwybodaeth a chyfathrebu, monitro coedwigaeth gyffredin a hyrwyddo arloesed, ymchwil a hyfforddiant.

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Agwedd ddwy haen at wneud gwahaniaeth gwirioneddol i goetiroedd Ewrop - a'r bobl sy'n byw ynddynt

Nid siop siarad oedd cynhadledd Llandudno – bu cynadleddwyr yn cydweithio dros dridiau i lunio llond trol o argymhellion ar y ffordd ymlaen i goedwigaeth.

Lluniwyd dwy restr o ddyheadau ar gyfer y dyfodol:

- **Un wedi'i hanelu at yr UE, Llywodraethau Rhanbarthol a Chenedlaethol gyda'r nod o lywio polisi'r dyfodol**

- **A'r llall yn nodi meysydd lle mae angen mwy o gydweithrediad ar gyfer rhaglenni'r dyfodol**

Mae cymunedau a chyfathrebu yn allweddol i ddyfodol coedwigaeth fel un o'r sbardunau pennaf i adfywio gwledig ledled Ewrop.

"Mae i ddiwydiannau coedwigaeth preifat a chyhoeddus ran bwysig i'w chwarae yn nyfodol economaidd a chymdeithasol y rhanbarth, yn ogystal ag wynebu'r ddwy her o newid yn yr hinsawdd a newid economaidd," Jon Owen Jones, Comisiynwr Coedwigaeth, Cymru.

Dyna'r neges glir oddi wrth y 200 o gynadleddwyr o Gymru, Yr Almaen, Yr Eidal, Slofacia a Sbaen a gymerodd ran yn y gweithdai yn ystod y gynhadledd i nodi sut y gall coedwigoedd gael hyd yn oed fwy o effaith ar yr economi wledig. Pobl sy'n byw yn y wlad sy'n dioddef effeithiau diboblogi, gostyngiad mewn cyflogau a llai o swyddi. Yr un yw'r hanes ym mhob un o'r rhanbarthau - rhannu profiad o'r angen am adfywio buan mewn trefi a phentrefi.

A'r cymunedau eu hunain sydd am sbarduno'r adfywio hwnnw – y nhw sydd â'r mwyaf i'w ennill a'r mwyaf i'w golli a nhw sydd â'r mwyaf wedi'i ymrwymo i sicrhau llwyddiant rhaglenni ar gyfer newid.

Ond mae angen cymorth arnynt, nid yn unig yn ariannol trwy gyfrwng rhaglenni grant a ariennir gan yr UE, llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol, ond trwy gyfathrebu gwell, mwy o gefnogaeth a dealltwriaeth well o'u hanghenion.

Yn fwy na hynny, mae angen cydnabyddiaeth bod rhan fawr gan goedwigaeth i'w chwarae yn y ffordd y gall cymunedau gwledig ffynnu a llwyddo.

Ac yn ei thro, gall coedwigaeth chwarae rhan wirioneddol iawn i gynorthwyo Llywodraeth i wireddu eu hamcanion ehangach o ran yr economi, cymdeithas, yr amgylchedd, iechyd ac addysgol.

Swyddogaeth Robinwood yw tynnu argymhellion at ei gilydd, yn enwedig ynghylch yr ymchwil mae'n ei wneud i hydroddaeareg, rheoli coedwigoedd ac ynni bio-más.

Bydd yr argymhellion hynny yn llwyfan i bawb sy'n ymwneud â'r sector i leisio'u barn, ac i sicrhau y defnyddir y barnau hynny i ddarbwyllo yn y ffordd orau gwneuthurwyr polisi a gwleidyddion fod coedwigaeth yn ddiwydiant dynamig sy'n rhoi cyfleoedd gwirioneddol ar gyfer newid cymdeithasol.

"Mae angen i bobl a sefydliadau lleol ac ar lawr gwlad lywio polisi a rheolwyr ar lefel uwch. Mae hyn yn galw am ddulliau cyfathrebu gwell rhwng rhanddeiliaid a chydnabyddiaeth bod coedwigaeth yn ddiwydiant cyfoes," Daniella Minetti, Rheolwr Prosiect Robinwood.

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Neges i Lywodraethau Ewrop

Llai o fân-reolau! Dyna oedd apêl yr holl ranbarthau partner ar ddiwedd tridiau o drafod.

Anogodd gweithdai trwy gydol y digwyddiad bob cynadleddwr i gyfrannu at argymhellion i'r Llywodraeth ynghylch sut y gallai coedwigaeth elwa ar gael ei diwygio.

Rhaid rhoi ystyriaeth gyfartal i amaethyddiaeth a choedwigaeth, ac i goedwigaeth gael 'lle wrth y bwrdd' mewn perthynas â newid yn y defnydd ar dir, a diwygio - gyda threfniadau i berchnogion coetiroedd reoli coedwigoedd yn effeithiol. Mae angen mwy o ariannu ar gyfer arbrofi, ynghyd â chynlluniau stiwardiaeth ar sail wyddonol.

Ac mae'n rhaid cael gwelliant o ran integreiddio traws-sector, gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yn cydweithio'n fwy agos i hyrwyddo cefnogaeth gymdeithasol a chymunedol i ddatblygu traws-sector ar fentrau ac adfywio a phrosiectau cymunedol yn integreiddio â busnesau pren lleol.

Dylai grwpiau lleol ar lawr gwlad gael mwy o ddylanwad ar lefel genedlaethol, gyda chyfathrebu gwell i sicrhau 'ei fod yn digwydd'

Ynglŷn â bio-más a thanwydd pren, dywedodd y gynhadledd y dylai Llywodraethau ledled Ewrop roi strategaeth bio-más ar waith ar lefel genedlaethol, gyda llywodraeth leol yn cymell tanwydd pren ar lefel fach/ ganolig er mwyn annog y farchnad. Mae angen cefnogaeth ar gyfer mentrau bio-más bychain.

O ran ardystio, roedd cynadleddwyr am i'r rhwystrau a wynebai perchnogion coetiroedd gael eu symud a mwy o rannu methodoleg ar draws Ewrop.

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Beth nesaf o ran cydweithrediad yn Ewrop

Felly, sut y mae partneriaid Robinwood yn gweld bod eu gwaith yn mynd yn ei flaen? Mae rhaglen Interreg IIIc wedi sefydlu rhwydweithiau o arbenigwyr sydd eisoes yn gweithio i geisio atebion i'r rhai o'r problemau mwyaf taer sy'n wynebu coedwigaeth ac adfywio.

Ond mae llawer mwy o waith i'w wneud, fel y mae'r rhestr o gyfleoedd posibl i gydweithredu yn y dyfodol a luniwyd gan y cynadleddwyr yn ei brofi.

Mae rhannu gwybodaeth am sut y mae'r gadwyn bren yn gweithio mewn rhanbarthau gwahanol eisoes wedi dechrau talu ffordd o ran trefniadau a rhwydweithiau gwell, ond mae angen gwneud mwy o waith eto i archwilio'r cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae angen mwy o gydweithredu ar gynhyrchion pren ac mae angen gwneud mwy o waith i helpu cymunedau a busnesau gydweithio i wella'r gadwyn bren. Mae angen

ymchwilio i fodelau integredig o gynhyrchu bio-más mewn ardaloedd gwledig a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarthau.

Mae trefnu partneriaethau yn faes arall y mae angen sylw arno. Mae angen ymgysylltu a chyfathrebu mwy clòs â pherchnogion tir, eto gyda'r gymuned a busnes yn rhannu profiadau ac yn datblygu cysylltiadau mwy agos.

Mae angen rhannu clir o wybodaeth, ynghyd â chynhyrchu a rhannu technoleg a gwybodaeth a rhoi'r cyfle i dimau o bob rhanbarth weld sut y mae'r arfer gorau o gydweithio yn llwyddo.

Mae angen gwneud mwy o waith hefyd ar gynllunio a rheoli'r dirwedd ac mae rhan allweddol gan goedwigaeth amlswyddogaeth i'w chwarae, yn enwedig mewn materion hydroddaeareg.

Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Coedwigaeth Wladol – yn arwain arloesedd ac arfer gorau?

Gwnaeth swyddogaeth sefydliadau coedwigaeth Wladol ar draws prosiect Robinwood ennyn trafodaeth fywiog. Roedd cynadleddwyr wedi'u rhannu yn eu barn o ran p'un ai prif swyddogaeth y sector cyhoeddus oedd arwain a lledaenu arfer gorau ac arloesedd ai peidio.

Dywedodd cynadleddwyr o Slofacia, Yr Eidal a'r Almaen bod eu coedwigoedd cyhoeddus hwy yn enghreifftiau o arloesedd ac arfer gorau – ond roedd sylwadau'r bobl o Sbaen a Chymru yn llai canmoliaethus.

Nodwyd hefyd y gwahaniaethau rhanbarthol gyda'u cryfderau a'u gwendidau wrth ymgysylltu â'r diwydiannau coedwig a'r gwahaniaethau mewn economïau gwledig pob un o'r partneriaid.

Dywedodd cynadleddwyr hefyd fod angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng ymchwil a rhoi'r canlyniadau ar waith ym myd coedwigaeth 'go iawn' - gyda sefydliadau coedwigaeth Wladol yn chwarae rhan arweiniol wrth dywys y diwydiant drwy ymchwil gymhwysol ac arfer gorau.

A dadleuwyd mai'r ffordd bwysicaf y gall coedwigaeth Wladol ddylanwadu ar gyflwr y diwydiant yn ei gyfanrwydd yw gwella'r ddealltwriaeth o faterion yn ymwneud â choedwigaeth trwy gynnwys yr holl randdeiliaid gwahanol - a pharodrwydd i ymgysylltu â'r materion hynny.

[Forestry for the future of rural Europe]
Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Cymuned a chydweithrediad

Dywedwyd wrth y gynhadledd y tanbrisir manteision posibl pennaf grwpiau cymunedol gweithgar a'u prosiectau coetiroedd a choedwigaeth.

Mae coedwigwyr yn gwybod sut i reoli coetiroedd, ond nad oes ganddynt, o reidrwydd, yr arbenigedd i ymgysylltu'n briodol â chymunedau.

Mewn rhai achosion, nid yw terfynau cyfrifoldebau a chylch gwaith coedwigaeth wladol yn glir, felly mae disgwyliadau cymunedau yn disgyn y tu allan i'r terfynau hynny – ac ni archwilir na chysoni y gwahanol farn yn fanwl.

Trafodwyd manteision cwmnïau cydweithredol hefyd gan gynnwys eu hyblygrwydd, eu hystod eang o gynnyrch, eu hyder ar sail ymddiried a'u cystadleugarwch.

Cytunwyd bod cwmnïau cydweithredol a reolir yn fewnol yn gweithio'n well na rhai a grëid yn allanol. Yn aml caiff y rhain eu hadeiladu o amgylch hyrwyddwr cymunedol neu mewn ymateb i i ddigwyddiad neu fygythiad allanol.

Cyflwynodd y gynhadledd argymhellion ar sail yr enghreifftiau mwyaf llwyddiannus o ymgysylltu cymunedol a oedd yn cynnwys hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu ar gyfer coedwigwyr gwladol.

Byddai datblygu dulliau penodol fel dogfennau arweiniol yn ddefnyddiol. Felly hefyd reolwyr prosiect a gyflogir gan y gymuned, a fyddai'n adeiladu fforwm neu rwydwaith ar gyfer rhoi gwybod am yr arferion gorau rhwng mentrau cymunedol a chysondeb gwell wrth ymdrin â sefydliadau cymunedol er mwyn adeiladu partneriaethau effeithiol. Awgrymodd cynadleddwyr hefyd y gallai grwpiau ar draws rhanbarthau partner Robinwood ddysgu oddi wrth ddulliau a thechnegau llwyddiannus ei gilydd.

[Forestry for the future of rural Europe]
Coedwigaeth ar gyfer dyfodol Ewrop wledig

Coedwigaeth – y dyfodol i adfywio gwledig?

Yn ystod y gynhadledd tri-diwrnod tynnodd y trafodaethau sylw at feysydd allweddol lle mae coedwigaeth eisoes yn cael effaith wirioneddol ar adfywio - y materion a amlygir ym mhob un o'r meysydd hynny a'r gwaith y mae angen ei wneud i adeiladu ar lwyddiant:

Rheoli coedwigoedd

- Gwahaniaethau real a chanfyddedig rhwng rheolaeth amgylcheddol a rheolaeth economaidd, defnydd cyhoeddus a defnydd masnachol.
- Amlygwyd yr her a osodir gan sbwriel, perygl o dân, materion sy'n ymwneud â difrod ac atebolrwydd ynghyd â'r angen i wella'r ymdeimlad o berchnogaeth a stiwardiaeth gan gymunedau.
- Annog rheolwyr coetiroedd i liniaru problemau hydroddaeareg.

- Mae'r prosiectau mwyaf effeithiol yn rhai amlswyddogaeth mewn gwirionedd - ac yn cynnwys amcanion amgylcheddol, coedwigaeth a chymdeithasol.
- Mae effaith gynyddol yn perthyn i brosiectau bychain – mae mentrau lleol llwyddiannus yn cyfrannu at y darlun adfywio cyffredinol.
- Cynllunio tirwedd a chynnwys pobl fel y cânt gyfle i ddweud eu dweud wrth wneud penderfyniadau
- Mae prosiectau coedwigaeth a chymunedol yn gweithio orau pan fônt yn fasnachol ganolog – hyd yn oed os nad elw yw'r amcan pennaf.

Ardystio
- Mae costau uchel un ei gwneud hi'n anodd i berchnogion coetiroedd bychain.
- Fe'i hystyrir yn amherthnasol gan lawer i berchennog sy'n cyflenwi cwsmeriaid lleol sefydledig.
- Gall ardystio fod yn ddull i wella safonau rheoli coedwigoedd.
- Mae ardystio fesul grŵp yn dod i'r amlwg yn ddull mwy cost-effeithiol.
- Mae barn wahanol gan dirfeddianwyr a busnesau coedwig ynghylch ardystio.
- Gall cymhellion fel cymorthdaliadau, hyrwyddo annibynnol neu safonau eraill fod yr un mor effeithiol.

Pren a bio-más
- Er gwaethaf problemau, mae cynhyrchion pren o werth uchel yn gwella nerth y farchnad.
- Mae cymhellion penodol – gan gynnwys cefnogaeth gan y wladwriaeth – yn hanfodol ar gyfer gwneud newidiadau a fydd yn eu tro yn cefnogi mentrau gwledig newydd ar sail coedwigoedd.
- Mae cynhyrchion newydd yn gweithio pan y'u cysylltir â galw gwirioneddol.
- Nid yw busnesau ond cyn gryfed â'r gadwyn gyflenwi.

Cyfathrebu
- Angen cyffredinol am gyfathrebu gwell rhwng coedwigaeth a sefydliadau eraill – gan gynnwys adrannau'r Llywodraeth.
- Nid yw cyfathrebu hierarchaidd yn gweithio cystal â chyfathrebu cydweithredol.
- Gwefannau'r rhyngrwyd yn fforymau cyfathrebu.
- Newid mewn ardaloedd gwledig, a'r angen i ymgysylltu â thirfeddianwyr traddodiadol, mewnddyfodiaid a mathau newydd o dirfeddianwyr.
- Symleiddio rheoliadau coedwigaeth a biwrocratiaeth arall trwy gyfathrebu.

Pobl ifanc
- Eu haddysgu am ddiben a manteision coedwigaeth.
- Twristiaeth coetiroedd yn gyflogwr.
- Busnesau coedwig yn darparu swyddi – a chadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig.

Polisi, ariannu ac economeg
- Mae angen cyfrannu a chynllunio tymor-hir ar gyfer adfywio tymor-hir.
- Dylai coedwigaeth mwy gwyrdd fod yn ddichonadwy yn economaidd, yn ogystal â bod yn ecogyfeillgar.

- Rhaid i grantiau fod yn gysylltiedig â thirweddau ac nid yn gysylltiedig â ffermydd unigol.
- Mae angen i ariannu fod yn fwy hyblyg a chynaliadwy.
- Gall rheoli hunangynhaliol ar brosiectau gwledig gynyddu'r llwyddiant.
- Mae costau cychwyn is ar gyfer prosiectau bychain lleol yn bwysig.

Rheoliadau a gwleidyddiaeth

- Dylai polisïau datblygu gwledig gyfannu cydrannau coedwigaeth er mwyn bod ar eu mwyaf effeithiol.
- Mae angen cefnogaeth wleidyddol ar adfywio ar sail coedwigaeth er mwyn gwireddu newid.